

Asesiad o flaenoriaethau treftadaeth awdurdodau lleol a'u anghenion cymorth

08/07/2021

[See all updates](#)

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno mewnwelediadau gan awdurdodau lleol er mwyn helpu i gyflawni treftadaeth cydnerth a chyflwyno gwelliannau hirdymor i leoedd a chymunedau.

Atodiad

Maint

[Assessment of local authority heritage priorities and support needs](#) 387.9 KB

Gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol

Rydym yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth lleol, ranbarthol a chenedlaethol y DU.

Mae awdurdodau lleol yn rhanddeiliaid treftadaeth allweddol. Mae ganddynt gyfrifoldeb am asedau treftadaeth ac am wireddu potensial treftadaeth ar lefydd. Mae hwn yn cynnwys y rôl bwysig sydd gan treftadaeth wrth gefnogi blaenoriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol lleol.

Mae'r awdurdodau lleol wedi chwarae rôl flaenllaw bwysig ar gyfer eu meysydd mewn ymateb i coronafirws (COVID-19). Ac maen nhw ar y blaen wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer adfer eu lleoedd o'r pandemig.

Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ledled y DU fel rhan o'n [dull seiliedig ar le o dreftadaeth](#). Mae hyn yn cynnwys canlyniadau ein [hardal lleol](#) a'r [economi lleol](#).

Yngl?n â'r adroddiad hwn

Roeddem am glywed mwy gan awdurdodau lleol wrth inni ystyried sut orau i ddarparu adnoddau a chefnogi ardaloedd lleol. Bydd hyn yn helpu i gyflawni treftadaeth gydnerth ac i gyflwyno gwelliannau hirdymor i leoedd a chymunedau. Gwnaethom gomisiynu [Golant Innovation](#) i gasglu mewnwelediadau gan awdurdodau lleol ledled y DU i helpu i lywio ein dull gweithredu.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr heriau ariannol ac adnoddau sy'n codi o'r pandemig, ond hefyd y cyfle i dreftadaeth chwarae rhan amlwg mewn adferiad.

Mae'r ymchwil yn dangos y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei rhoi i dreftadaeth mewn cynlluniau adfer lleol. Mae hyn yn adlewyrchu ein [blaenoriaethau wedi'u hail-lunio ar gyfer 2021-22](#) sy'n tynnu sylw at rôl treftadaeth wrth adeiladu yn ôl ar gyfer newid cadarnhaol.